# Llais
# Ieuenctid Ar-lein

## Popeth y mae angen i ti ei wybod

## Gwneud yn siŵr bod dy lais di'n cael ei glywed, ac yn siapio byd ar-lein sy'n fwy diogel a hapus.

Pan rydyn ni'n siarad â phobl ifanc am ddiogelwch ar-lein, maen nhw'n dweud wrthym ni: 'Er ein bod ni'n ifanc, mae gennym ni syniadau cryf am sut i gadw plant yn ddiogel ar-lein.'

Ar hyn o bryd, does dim digon yn cael ei wneud i roi sylw i farn pobl ifanc ac i wneud newidiadau mawr i'r byd ar-lein. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llais Ieuenctid Ar-lein wedi bod yn mynd i'r afael â hynny, ac mae angen dy help di arnom ni i barhau â'r sgwrs.
Rydyn ni eisiau gwybod hyd yn oed mwy am brofiadau ar-lein pobl ifanc, a'r problemau rydych chi'n eu hwynebu wrth chwilio am help, a gweithio gyda phobl ifanc i alw am newid.

**Rydyn ni'n gwybod bod pobl ifanc yn arbenigwyr ar eu bywyd eu hunain – felly rydyn ni'n gofyn i bobl ifanc rannu eu lleisiau a'u profiadau gyda ni. Gyda'n gilydd, gallwn greu byd ar-lein sy'n ddiogel i bob plentyn.**

Fel rhan o'r broses o roi pobl ifanc wrth galon ein gwaith, rydyn ni'n awyddus i recriwtio grŵp newydd o bobl ifanc i gael llais am ddiogelwch yn y byd ar-lein. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys siarad â phobl sy'n gwneud penderfyniadau, a dylanwadu ar ddeddfau a rheoliadau.



**Beth mae Diogelwch Plant Ar-lein yn ei olygu?**

NSPCC

EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

Elusen gofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (216401), yr Alban (SC037717) a Jersey (384).

## Beth yw Llais Ieuenctid Ar-lein?

Mae Llais Ieuenctid Ar-lein yn grŵp o 20 person ifanc, rhwng 12 a 15 oed, o bob rhan o'r DU.
Bydd grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein yn rhannu eu barn a'u syniadau am bob math o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc heddiw, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, mynediad at y byd ar-lein, beth mae llwyfannau ar-lein diogel yn ei olygu iddyn nhw, a llythrennedd digidol. Byddan nhw'n cynghori'r NSPCC ar y pethau sydd bwysicaf i'r genhedlaeth hon. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn llawer o brosiectau a phrofiadau llawn hwyl. Bydd cyfleoedd i deithio ar hyd a lled y wlad i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, diwrnodau 'cwrdd i ffwrdd', cyfarfodydd a gweithdai, sydd i gyd yn gysylltiedig â'r byd ar-lein a chadw pobl ifanc yn ddiogel.

**Gwna gais nawr** – rydyn ni eisiau llawer o wahanol bobl ifanc i fod yn rhan o grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein. Does dim angen i ti fod wedi cael unrhyw brofiad o gymryd rhan mewn grŵp cynghori, na gwirfoddoli gyda'r NSPCC. Byddwn ni'n rhoi llawer o gefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant er mwyn i ti deimlo'n hyderus ac yn hapus i gymryd rhan.

## Beth fydd angen i ti ei wneud

Os byddi di'n dod yn aelod o grŵp **Llais Ieuenctid Ar-lein**, byddi di'n:

- Mynd i sesiynau a gweithdai bob yn ail fis ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda gweddill y grŵp. Bydd tua phedair sesiwn wyneb yn wyneb, a bydd y gweddill yn cael eu cynnal ar-lein.
- Gweithio gyda gweddill y grŵp i hyrwyddo barn pobl ifanc am y byd ar-lein.
- Cwrdd â phobl sy'n gwneud penderfyniadau ac yn datblygu deddfau, polisïau a rheoliadau i wneud y byd ar-lein yn fwy diogel, a rhannu dy safbwyntiau di.
- Gweithio gyda thimau'r NSPCC i ddatblygu ein hymchwil a'n safbwyntiau ni ar wahanol faterion diogelwch ar-lein – fel gwneud deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn ddiogel i blant, a gwneud yn siŵr bod y profiadau mae plant yn eu cael ar-lein yn addas i'w hoedran.
- Cynrychioli Llais Ieuenctid Ar-lein mewn digwyddiadau cyffrous gyda llawer o bobl eraill sydd â diddordeb mewn diogelwch ar-lein.
- Cwrdd â rhai o dimau'r NSPCC a sefydliadau eraill er mwyn helpu i wneud y byd ar-lein yn fwy diogel.



## I fod yn aelod o grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein, mae angen i ti:

- Ymrwymo i fod yn aelod o grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein am 18 mis, o fis Mehefin 2026 tan fis Rhagfyr 2027.
- Bod ar gael i fynd i bob cyfarfod ar-lein ac wyneb yn wyneb yn rheolaidd, gan gynnwys digwyddiadau preswyl wyneb yn wyneb.
- Cael mynediad at dechnoleg a fydd yn dy alluogi i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein a thasgau all-lein.
- Bod yn hapus i rannu dy farn a dy syniadau, ac i ddweud wrth yr NSPCC beth yw dy farn am yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a beth allwn ni ei wneud yn well i blant a phobl ifanc.
- Teimlo'n gyffrous am weithio mewn tîm gyda grŵp o bobl ifanc eraill o bob cwr o'r DU.
- Bod yn barod i wrando ar eraill a pharchu barn a allai fod yn wahanol i dy farn di.
- Bod yn barod i roi cynnig ar bethau newydd a chymryd rhan mewn profiadau newydd, fel mynd i gyfarfodydd gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr NSPCC.

## Faint mae'n ei gostio?

Nid yw'n costio dim i ymuno. Bydd yr NSPCC yn talu am gostau teithio, llety a threuliau eraill fel bwyd, pan fyddi di'n dod i unrhyw ddigwyddiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd yr holl fanylion hyn yn cael eu rhannu â thi a dy riant neu ofalwr cyn unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau.

### Rydw i eisiau gwneud cais i fod yn aelod o grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein. Beth sydd angen i mi ei wneud?

Grêt! Y cam cyntaf yw llenwi ffurflen gais ar ein gwefan. Hefyd, bydd angen i riant neu ofalwr lenwi a llofnodi'r ffurflen ganiatâd sy'n rhan o'r ffurflen gais.

Bydd angen i ti ei hanfon atom ni erbyn 22 Mai 2026. Bydd angen i ti hefyd fod ar gael ar gyfer cyfweliad ar-lein gydag aelod o'n tîm cyfeillgar ym mis Mehefin 2026.

## Beth os bydd angen mwy o help arna i wrth wneud cais?

Rydyn ni bob amser yma i helpu. Anfona neges at **YouthCSOSolutions@NSPCC.org.uk**, ac fe allwn ni gael sgwrs i wneud yn siŵr dy fod ti'n cael pob help sydd ei angen arnat ti i wneud cais.

## Diogelu

Mae'r NSPCC yn cymryd cyfrifoldebau diogelu o ddifrif, ac mae wedi ymrwymo i warchod pobl ifanc rhag niwed. I weld sut rydyn ni'n gwneud hyn, darllena'r ddogfen diogelu ar y dudalen we webpage sy'n egluro ein hymrwymiad i bobl ifanc a'r hyn rydyn ni wedi'i roi ar waith i gadw pobl ifanc yn ddiogel.